**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf – MA-P-KW-1268-18

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

13 Ebrill 2018

Annwyl Lynne

Diolch am eich llythyr ar 27 Mawrth, ar ran y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Rydych yn codi nifer o bwyntiau am yr anghydfod sy'n mynd rhagddo ynghylch Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS), ac rwy'n rhoi sylw iddynt isod.

*Effaith y newidiadau arfaethedig i'r USS ar nifer ac ansawdd y staff a fyddai'n aros yng Nghymru ar ôl i unrhyw newidiadau o'r fath gael eu gwneud.*

Mae'n bwysig nodi mai cynllun sy'n gweithredu ledled y Deyrnas Unedig yw'r USS, ac felly bod hwn yn anghydfod sy'n berthnasol i'r Deyrnas Unedig gyfan. Er ei fod yn effeithio ar sefydliadau Cymru a'u staff, mae'r materion sy'n destun dadlau yn berthnasol i'r sector Addysg Uwch ehangach yng Nghymru a'r tu hwnt. At hynny, mater i weithwyr unigol a'u cyflogwyr yw trefniadau pensiwn. Oherwydd hyn, nid yw'n bosibl i Lywodraeth Cymru geisio dyfalu sut y gallai'r newidiadau arfaethedig effeithio ar staff unigol a'u penderfyniadau ynghylch cael eu cyflogi gan sefydliadau penodol.

*Yr effaith uniongyrchol ar fyfyrwyr Cymru a'r rheini sy'n astudio yng Nghymru yn sgil unrhyw ostyngiad dilynol yn nifer ac/neu ansawdd y staff.*

Rwy'n ymwybodol bod y gweithredu diwydiannol gan yr Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU) wedi effeithio ar fyfyrwyr mewn rhai achosion. Serch hynny, rwy'n deall bod y sefydliadau yng Nghymru wrthi'n paratoi cynlluniau wrth gefn er mwyn lleihau'r effaith ar brofiad myfyrwyr. Rwy'n pryderu am yr effaith ar fyfyrwyr ac rwy'n falch bod yr UCU wedi annog ei aelodau i flaenoriaethu aildrefnu eu cynlluniau addysgu er mwyn lleihau'r effaith cymaint ag y bo modd.

*Effaith gyffredinol y ddau bwynt uchod ar economi ehangach Cymru, gan ystyried y cyfraniad economaidd hanfodol y mae addysg uwch yn ei wneud tuag at sefyllfa Cymru gartref ac yn rhyngwladol.*

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel y nodais uchod, mater sy’n berthnasol drwy’r Deyrnas Unedig gyfan yw hwn. Ar hyn o bryd, nid oes modd mesur yr effaith bosibl yn y tymor hwy ar economi Cymru. Fe wyddoch fy mod yn gryf o blaid y rôl ddinesig a diwylliannol, yn ogystal â'r rôl economaidd, sydd gan addysg uwch yng Nghymru, a byddaf yn parhau i hyrwyddo a chefnogi’r gweithgareddau hyn.

*Diffygion ymddangosiadol yn y trefniadau llywodraethu er mwyn canfod barn staff prifysgolion am y newidiadau arfaethedig i’r cynllun, a’r modd y mae’r Rheoleiddiwr Pensiynau wedi ystyried lefel goddefiant risg y prifysgolion.*

Materion i’r USS a’r Rheoleiddiwr Pensiynau yw'r rhain, ac ni fyddai’n briodol imi ymateb i hyn.

Yn olaf, mae eich llythyr yn fy annog i gynnull cyfarfod ar frys o’r unigolion perthnasol, gan gynnwys Is-gangellorion Cymru, er mwyn ceisio datrys pethau cyn gynted â phosibl. Fel cyrff sy’n eu rheoli’u hunain, y sefydliadau addysg uwch eu hunain sy’n gyfrifol am faterion cyflogaeth, gan gynnwys pensiynau. Serch hynny, rwyf i a’m swyddogion wedi cael nifer o drafodaethau a chyfarfodydd yn yr wythnosau diwethaf gyda chynrychiolwyr y sector, yr undebau a’r cyflogwyr. Rwy’n annog pob ochr i barhau i drafod er mwyn ceisio dod o hyd i ateb.

Yn gywir

**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education